"Eto, peidiwch â llawenhau yn hyn, fod yr ysbrydion yn ymddarostwng i chwi; llawenhewch oherwydd fod eich enwau wedi eu hysgrifennu yn y nefoedd." **(Luc 10:20)**

Dyma'r Arglwydd Iesu yn siarad â saith deg dau o'i ddisgyblion ar ôl iddyn nhw fod ar genhadaeth hynod o lwyddiannus.

Llawenydd buddugoliaeth

Does dim byd fel llwyddiant a buddugoliaeth i godi'r ysbryd! Pan fydd tyrfa wedi gwylio gêm bêl-droed neu rygbi, a'u tîm wedi ennill, mae'r ysbryd yn uchel a'r trafod yn llifo, a'r dathlu'n dilyn.

Gwaetha'r modd, ychydig o fuddugoliaeth ysbrydol a welwn yng Nghymru heddiw. Mae'n dda i ni gael ein hatgoffa, felly, mai eiddo Crist yw'r fuddugoliaeth ac mae enw Crist sydd ben, ac mai Ef fydd yn ymddangos fel Brenin brenhinoedd ac Arglwydd arglwyddi ar ddiwedd y byd.

Mae dy enw mor ardderchog,
pob rhyw elyn gilia draw;
mae dy arswyd drwy'r greadigaeth,
tyrd am hynny maes o law. (Pantycelyn)

Mae'n debyg bod y disgyblion hyn wedi synnu o brofi llwyddiant, nid yn unig mewn pregethu ac iacháu, ond mewn bwrw allan gythreuliaid hefyd.

Satan yn syrthio

Mae'r Arglwydd yn cadarnhau eu buddugoliaeth ac yn llawenhau gyda nhw, wrth ddweud ei fod wedi gweld Satan yn syrthio fel mellten o'r nef. Yr esboniad mwyaf amlwg ar y geiriau hyn, yw bod Iesu'n cyfeirio at fuddugoliaeth y genhadaeth oedd newydd ddigwydd fel cyfrwng i roi ergyd sydyn ac annisgwyl i Satan gan ddilynwyr Crist, nes peri iddo syrthio'n gyflym, fel mellten, o'r nef. Mae'n debyg i baffiwr da sy'n gallu anelu ergyd annisgwyl gyda dwylo cyflym nes taro'i wrthwynebwr yn chwil i'r llawr.

Awdurdod a diogelwch Crist

Yna mae'r Arglwydd yn atgoffa'r disgyblion o'r awdurdod oedd ganddo, a'i fod wedi ei drosglwyddo iddyn nhw. Awdurdod dros nadroedd ac ysgorpionau. Mae rhai pobl yn dehongli'r geiriau hyn yn llythrennol ac yn cyfeirio at Paul yn ysgwyd i ffwrdd y neidr oddi ar ei fraich yn Melita.

Mae rhai eglwysi'n mynd â hyn gam ymhellach trwy gael nadroedd

gwenwynig yn eu hoedfaon, a chael cyfle yn yr oedfa i godi'r nadroedd gan ddisgwyl na chânt eu brathu. Gwaetha'r modd, mae rhai wedi cael eu brathu'n ddrwg. Ni allaf gredu mai dyma oedd bwriad Iesu wrth ddweud y geiriau hyn.

Yn wir, onid yw'r esboniad yn ail ran yr adnod? Onid yw yn dweud bod ganddo awdurdod i'w ddisgyblion drechu holl nerth y gelyn, ac mae symbolau o'r gelyn, sef y diafol, yw'r neidr a'r ysgorpion?

Mae'n addo hefyd diogelwch rhag y gelyn ffiaidd hwn. Er fod buddugoliaeth yn enw Crist ac er fod grym Crist yn drech na'r gelyn, 'mae'r gelyn yn gryf' ac mae angen diogelwch ein Bugail mawr arnom.

Llawenydd mwy

Mae'r Arglwydd Iesu'n llawenhau gyda'r deuddeg a thrigain, a doedd dim o'i le ar eu llawenydd, gan fod clod yn dod i Dduw trwy eu buddugoliaeth, a rhyddhad rhag gormes y tywyllwch i'r sawl oedd yn cael gwared ar y cythreuliaid. Eto i gyd, mae hyn yn llai arwyddocaol na chael eu henwau wedi eu hysgrifennu yn y nef.

Arwyddocâd mwyaf yr Efengyl yw ei bod yn dod â phechaduriaid colledig at Dduw ac yn etifeddion y nefoedd. O gael ein galw gan yr Ysbryd Glân at Grist, cawn ein tynnu o feddiant Satan at Dduw, o farwolaeth i fywyd. Gwyrth yr ailenedigaeth yw'r wyrth fwyaf un, gan ei bod yn newid pechadur gwrthryfelgar i fod yn un sydd yn ceisio ac yn caru Duw o'i galon.

Mae'r syniad o Dduw yn ysgrifennu enwau ei bobl yn y nef yn rhedeg trwy'r Ysgrythur:

"Ond yn yr amser hwnnw gwaredir dy bobl, pob un yr ysgrifennwyd ei enw yn y llyfr" (Dan. 12:1).

"ac ysgrifennwyd ger ei fron gofrestr o'r rhai a oedd yn ofni'r Arglwydd ac yn meddwl am ei enw" (Mal. 3:16).

"ac ni thorraf ei enw byth allan o lyfr y bywyd" (Dat. 3:5 wrth sôn am ffyddloniaid Sardis).

"Ni chaiff dim halogedig, na neb sy'n ymddwyn yn ffiaidd neu'n gelwyddog, fynd i mewn iddi hi, neb ond y rhai sydd â'u henwau'n ysgrifenedig yn llyfr bywyd yr Oen" (Dat. 21:27).

Mae'n bosibl i gau-broffwydi fwrw allan gythreuliaid yn enw Crist, heb ei adnabod mewn gwirionedd. Dyw llawenydd y fuddugoliaeth yna ddim gwerth ei gael, os byddant yn wynebu diflastod tragwyddol o gael eu gwrthod gan yr Arglwydd Iesu Grist:

"Bydd llawer yn dweud wrthyf yn y dydd hwnnw, 'Arglwydd, Arglwydd, oni fuom yn proffwydo yn dy enw di, ac yn dy enw di yn bwrw allan gythreuliaid, ac yn dy enw di yn cyflawni gwyrthiau lawer?' Ac yna dywedaf wrthynt yn eu hwynebau, 'Nid adnabûm erioed mohonoch; ewch ymaith oddi wrthyf, chwi ddrwgweithredwyr' (Math. 7:22-23).